Sport Caerphilly
Chwaraeon Caerffili

E-bost: hammob@caerffili.gov.uk

Dyddiad: 5 Awst 2026

**Parthed: Gwobrau Chwaraeon Chwaraeon Caerffili 2026 – Canllawiau Enwebu**

Mae Gwobrau Chwaraeon Chwaraeon Caerffili yn gyfle unigryw i ni gydnabod a gwobrwyo gwaith gwirfoddolwyr, hyfforddwyr a chlybiau ardderchog ar bob lefel ym myd chwaraeon.

Dilynwch y cyngor isod i'ch cynorthwyo chi gyda'r broses enwebu:

- Darllenwch y meini prawf i sicrhau eich bod chi'n enwebu yn y categori cywir.
- Soniwch am gyflawniad/gyflawniadau ac effaith yn eich paragraff cyntaf yn yr adran *Effaith a Chyflawniadau*, gan ddarparu rhagor o fanylion i ategu hyn.
- Darllenwch y pwyntiau bwled ***Am beth rydyn ni'n chwilio?*** a sicrhau eich bod chi'n ymdrin â phob un o'r pwyntiau hyn.
- Dewch â'r enwebiad yn fyw gydag enghreifftiau o sut mae'r unigolyn neu'r clwb wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, gydag ystadegau/canlyniadau a dyfyniadau gan gyfranogwyr/rhieni/hyfforddwyr eraill/aelodau o'r clwb/aelodau o'r gymuned o bosibl.
- Ystyriwch y buddion ehangach, a'r effaith y mae'r unigolyn neu'r clwb wedi ei chael ar gyfranogwyr. Ydy hyn wedi gwella lles corfforol/meddyliol neu ddatblygiad unigol/cymdeithasol/economaidd?
- Os yw'n briodol, defnyddiwch y blwch ***gwybodaeth ategol ychwanegol*** i ychwanegu rhagor o wybodaeth sy'n gwneud i'ch ymgeisydd sefyll allan ymysg pawb arall sydd wedi'u henwebu.
- **Nid** yw enillwyr categorïau yn ystod y tair blynedd diwethaf yn gallu cael eu henwebu ar gyfer y categori hwnnw. Os yw enwebai wedi cyrraedd y rownd derfynol yn ystod y tair blynedd diwethaf ond heb ennill y wobr, mae'n **gallu** cael ei enwebu ar gyfer y categori hwnnw eleni.

# Hyfforddwr Cymunedol y Flwyddyn

Mae'r wobr Hyfforddwr Cymunedol y Flwyddyn ar gyfer unigolyn arbennig sy'n haeddu cydnabyddiaeth am ei gyfraniad eithriadol gwirfoddol i chwaraeon yn ei gymuned.

Am beth rydyn ni'n chwilio?

- Tystiolaeth o'r effaith y mae'r enwebai wedi ei chael ar ehangu mynediad at chwaraeon drwy hyfforddi
- Tystiolaeth o effaith ehangach yr enwebai ar y gymuned (fel cydlyniant cymunedol, iechyd a lles)
- Tystiolaeth o sut mae'r enwebai yn diogelu ei gyfranogwr/gyfranogwyr ac yn darparu hyfforddiant addas i ddiwallu ei anghenion/eu hanghenion yn ystod ei gam/eu cam datblygu presennol
- Tystiolaeth o sut mae'r hyfforddwr wedi datblygu ei arferion ei hun mewn ffordd ymarferol
- Enghreifftiau o arferion arloesol

# Hyfforddwr Cynhwysol y Flwyddyn

Mae'r wobr hon ar gyfer unigolyn sydd wedi dangos llawer iawn o ymrwymiad ac angerdd wrth weithio gyda grwpiau targed penodol (fel Menywod a Merched; Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; Anabledd; ac Amddifadedd)

Am beth rydyn ni'n chwilio?

- Tystiolaeth o'r effaith y mae'r hyfforddwr wedi'i chael ar ehangu mynediad at chwaraeon i bobl anabl neu bobl mewn cymuned benodol, yn enwedig grwpiau cyfranogiad isel, i helpu ac ysbrydoli pobl i gyflawni eu nodau.
- Tystiolaeth o helpu ac ysbrydoli pobl mewn amgylchedd chwaraeon prif ffrwd neu amgylchedd chwaraeon anabledd pwrpasol
- Tystiolaeth o'r effaith ehangach y mae'r hyfforddwr yn ei chael ar y bobl y mae'n eu hyfforddi (fel datblygiad personol, iechyd a lles, a chyrhaeddiad addysgol)
- Tystiolaeth o ymgysylltu priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a hyfforddi rhagorol
- Tystiolaeth o sut mae'r hyfforddwr wedi datblygu ei arferion ei hun mewn ffordd ymarferol
- Enghreifftiau o arferion arloesol

## Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn

Mae'r wobr hon yn cydnabod cyfraniad eithriadol gwirfoddolwr ifanc o ran cael rhagor o bobl i ddechrau, aros a/neu lwyddo mewn chwaraeon/gweithgaredd corfforol trwy ddarpariaeth o ansawdd uchel.

---

Am beth rydyn ni'n chwilio?

- Unigolyn sy'n 18 oed neu'n iau ar ddyddiad yr enwebiad
- Tystiolaeth o greadigrwydd a phenderfyniad wrth ddatblygu gweithgareddau hyfforddi neu wirfoddoli
- Tystiolaeth o helpu ac ysbrydoli pobl i'w helpu nhw i gyrraedd eu nodau
- Tystiolaeth o'r effaith ehangach y mae'r enwebai yn ei chael ar y bobl y mae'n eu cynorthwyo, fel datblygiad personol, iechyd a lles, a chyrhaeddiad addysgol
- Enghreifftiau o arferion arloesol

## Gwirfoddolwr y Flwyddyn

Mae'r wobr hon yn cydnabod cyfraniad eithriadol gwirfoddolwr i gael rhagor o bobl i ddechrau, aros a/neu lwyddo mewn chwaraeon trwy ddarpariaeth o ansawdd uchel a lefel uchel o ymrwymiad ac ymroddiad.

---

Am beth rydyn ni'n chwilio?

- Unigolyn sy'n 18 oed neu'n hŷn ar ddyddiad yr enwebiad
- Unigolyn sy'n cyflawni rolau penodol neu amrywiol mewn cymuned neu glwb – gall fod yn rôl hyfforddi neu rôl heb fod yn un hyfforddi
- Tystiolaeth o greadigrwydd a phenderfyniad wrth ddatblygu gweithgareddau hyfforddi neu wirfoddoli
- Tystiolaeth o helpu ac ysbrydoli pobl i'w helpu nhw i gyrraedd eu nodau
- Tystiolaeth o'r effaith ehangach y mae'r enwebai yn ei chael ar y bobl y mae'n eu cynorthwyo, fel datblygu personol, iechyd a lles, a chyrhaeddiad addysgol
- Tystiolaeth o'i rôl yn y gymuned neu mewn clwb cymunedol
- Enghreifftiau o arferion arloesol

## Cyflawniad Oes i Chwaraeon

Mae'r gydnabyddiaeth hon ar gyfer unigolion sydd wedi dangos brwdfrydedd, ymroddiad ac ymrwymiad mawr wrth gael effaith sylweddol ar ddarparu chwaraeon yn ei gymuned.

---

Am beth rydyn ni'n chwilio?

- Tystiolaeth o ymroddiad i wirfoddoli sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gydol gyrfa'r enwebai
- Tystiolaeth o unrhyw gyflawniadau dros gyfnod hir
- Tystiolaeth o'r effaith ehangach y mae'r enwebai yn ei chael ar ei gyfranogwyr, ei glwb a'i gymuned ehangach
- Dyfyniadau gan aelodau o'r clwb neu'r gymuned leol
- Tystiolaeth o'r effaith y mae'r unigolyn wedi ei chael mewn clwb neu yn y gymuned leol, a'i bwysigrwydd i'w sefydliad/cymuned

## Clwb y Flwyddyn

Mae'r wobr Clwb y Flwyddyn yn cydnabod y gwaith y mae clybiau yn y gymuned yn ei wneud i ddarparu cyfleoedd a darparu chwaraeon i bawb.

---

Am beth rydyn ni'n chwilio?

- Tystiolaeth o dwf y clwb/sefydliad mewn meysydd fel lefelau cyfranogiad; menywod a merched; Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; gwaith yn y gymuned (gwaith elusennol/codi arian ac ati)
- Tystiolaeth o ddatblygu hyfforddwyr/gwirfoddolwyr a'r effaith y mae wedi ei chael ar yr unigolion hynny
- Tystiolaeth o'r effaith y mae'r clwb wedi ei chael yn y gymuned a'i bwysigrwydd i'w gymuned leol a'i gyfranogwyr
- Tystiolaeth o unrhyw gyflawniadau eithriadol yn ystod y flwyddyn diwethaf
- Dyfyniadau gan aelodau o'r clwb neu'r gymuned leol